

YCC o ddogfen Dyfodol Llwyddiannus (2015)

Pennod 2	Yr Adolygiad	Prosesau a Thystiolaeth	Tudalen 17
Beth yw'r gwersi o'r dystiolaeth o Gymru? Mae nifer o themâu'n codi dro ar ôl tro yn yr holl dystiolaeth a gasglwyd ledled Cymru. Mae ymrwymiad cadarn i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, ac i'r egwyddor o addysg gynhwysfawr, gynhwysol, a'r nod o gynnwys dimensiwn Cymreig yn addysg yr holl blant a phobl ifanc. Ategwyd y farn gadarnhaol hon yn yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth lle y nodwyd mai'r 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru a grybwyllwyd amlaf yw y Cyfnod Sylfaen, y Gymraeg a dwyieithrwydd (yn enwedig ymhlith ymatebwyr ifanc), a'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig.			

Pennod 3	Dibenion y Cwricwlwm	Tudalen 24
Mae'r casgliadau yn y set pwysig o adroddiadau gan grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cyfleu negeseuon clir am eu dibenion cwricwlwm arfaethedig. Yn benodol adroddiad terfynol grŵp adolygu'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru sy'n datgan y 'dylai'r fersiwn nesaf o'r cwricwlwm cenedlaethol i Gymru gymryd fel man cychwyn syniadau a delfrydau'r Cwricwlwm Cymreig presennol, gan adeiladu arnynt yn hytrach na'u trin fel atodiad. Dylai fod ganddo ddimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol'		

Pennod 4	Strwythur	Tudalen 40
Mae'r Adolygiad yn cadarnhau y dylai pynciau a disgyblaethau fod yn bwysig o hyd ond y dylid eu grwpio o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol, dimensiwn Cymreig yn ogystal â phersbectif rhyngwladol yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru.		

Pennod 4	Strwythur	Parhad ...	Tudalen 56
Bydd y Deilliannau Cyflawniad ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad yn ymgorffori cymwyseddau llythrennedd, rhifedd a digidol a sgiliau ehangach fel y bo'n briodol, yn ogystal ag elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig.			

Pennod 7	Goblygiadau		Tudalen 97
Ymysg yr elfennau bydd y timau datblygu canolog yn gweithredu arnynt ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd : cyngor ynghylch cynnwys elfennau perthnasol o'r Cwricwlwm Cymreig o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad.			

Pennod 8	Casgliadau ac Argymhellion	Tudalen 111
Mae'r sgiliau ehangach, sef meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, ac effeithiolrwydd personol, ynghyd ag elfennau'r Cwricwlwm Cymreig ac <i>Ar Drywydd Dysgu</i> i'w cynnwys ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Yn ogystal â hyn, dylai'r holl athrawon chwilio am gyfleoedd i gryfhau ac ymestyn yr elfennau hyn lle bynnag y gellir gwneud hynny'n naturiol yn eu dulliau addysgu a dysgu arferol.		